

Castell Caerdydd

Gweithdy Meddyginiaeth Ganoloesol

Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy yn naill ai Ystafell y Wraig Cadw Tŷ (Ystafell 1) yn y Ganolfan Addysg neu, pan fo'n bosibl, yn yr Isgrofft ganoloesol.

Disgrifiad

Darganfyddwch fwy am dechnegau ceulo gwaed meddyginiaeth ganoloesol gan y Barbwr Lawfeddyg; chwedlau o'r Pla Du, trin creithiau rhyfel, gosod esgyrn a thynnu dannedd - heb sôn am dynnu gwaed o bobl sâl a'r gelenod!

Cynhelir y sesiynau gan hwylusydd proffesiynol mewn dillad o'r oes sydd wedi pasio prawf y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DRB).

Hyd

Bydd y gweithdy yn para 75 munud. Nid yw taith dywys wedi'i chynnwys ym mhris y gweithdy ond gellir trefnu taith am gost fechan ychwanegol. Os dewisir taith, bydd yn cymryd tua 50 munud. Gallwch weld beth arall sy'n rhan o'ch ymweliad isod.

Canlyniadau Dysgu Allweddol

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu pa opsiynau sydd ar gael ar gyfer gofal meddygol yn y cyfnod canoloesol
- ◆ Dysgu am y gwahaniaeth rhwng ffisigwr a barbwr lawfeddyg ynghyd â rôl y barbwr lawfeddyg
- ◆ Dysgu am y dylanwadau Groegaid a Rhufeinig ar yr arferion meddygol canoloesol (e.e. Hippocrates, Galen a theori'r Pedwar Humours)
- ◆ Dysgu sut y byddai amrywiaeth o anhwylderau yn cael eu trin a'r gred a'u harweiniodd i gael eu trin y ffordd honno
- ◆ Dysgu am sut y defnyddiwyd gelenod i drin clwyfau
- ◆ Dysgu am offer llawfeddygol a ddefnyddiwyd ar y pryd
- ◆ Dysgu am y technegau a ddefnyddiwyd i berfformio rhai o'r llawdriniaethau ar y pryd (bydd llawdriniaeth ffug yn cael ei harddangos)
- ◆ Dysgu am y pwysigrwydd o gredoau crefyddol mewn meddyginiaeth yn ystod y cyfnod canoloesol.

Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ Hanes - Cyfnod Allweddol 2
 - Oes y Tywysogion (Cymru)
 - Bywyd pob dydd pobl a oedd yn byw yng nghyfnod y Tuduriaid (os dewisir Meddygaeth Duduraidd yn lle canoloesol) (Cymru)
 - Astudiaeth o agwedd neu thema yn hanes Prydain sy'n ymestyn gwybodaeth gronolegol y disgyblion y tu hwnt i 1066 (Lloegr)
- ◆ Hanes - Cyfnod Allweddol 3
 - Sut y gwnaeth dyfodiad y Normanaidd effeithio ar Gymru a Phrydain rhwng 1000 a 1500 (Cymru)
 - Datblygiad yr Eglwys, y wladwriaeth a chymdeithas ym Mhrydain Ganoloesol 1066-1509 (Lloegr)
- ◆ Hanes Cyfnod Allweddol 4
 - Meddyginiaeth Drwy'r Cyfnodau

Holwch am y posibilrwydd o ymestyn y gweithdy i gynnwys adran ar Feddygaeth Duduraidd yn cynnwys Pare a Vesalius, neu ei newid i Feddygaeth Duduraidd, fel y mae rhai ysgolion cynradd yn dewis ei wneud.

Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad

- Gweithdy fel y manylir uchod
- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant
- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.